**Pwyllgor Diwylliant – CC-11-01(p.1)**

**Dyddiad:** 20 Mehefin 2001

**Amser:** 9.00am-12.30pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# STRATEGAETH DDIWYLLIANT

## CYFLWYNIAD

Polisi Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol – Yr Hanes Diweddar

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol wedi etifeddu’r cyfrifoldeb dros amrywiaeth eang o bolisïau diwylliannol. Ymhlith y rhain mae polisïau yn ymwneud â’r celfyddydau a chwaraeon; llyfrgelloedd, archifdai ac amgueddfeydd; y Gymraeg a’r byd cyhoeddi; a’r byd ffilm. Mae’r Cynulliad yn gyfrifol am nifer o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC) – Cyngor y Celfyddydau, y Cyngor Chwaraeon, y Llyfrgell Genedlaethol, yr Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae’r Cynulliad hefyd yn rhoi arian i Gyngor yr Amgueddfeydd, Cyngor Llyfrau Cymru a Chanolfan Mileniwm Cymru. Ceir dau CCNC – Cyngor Llyfrgelloedd a Gwasanaethau Gwybodaeth (Cymru) a’r Cyngor Ymgynghorol ar Enwau Lleoedd – sy’n ein cynghori ar eu meysydd arbenigol.

Rho’r Cynulliad gyfarwyddiadau polisi i’r Cyngor Chwaraeon a Chyngor y Celfyddydau i roi arweiniad iddynt ar sut i ddosbarthu cronfeydd y loteri yng Nghymru. Gallwn hefyd ychwanegu at y cyfarwyddiadau a roddir gan yr Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i ddosbarthwyr loteri’r DU yn ymwneud â’u gweithgareddau yng Nghymru – sef Cronfa Dreftadaeth y Loteri a’r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Mae’r rhan fwyaf o waith Comisiwn y Mileniwm wedi dod i ben bellach.

Erys y cyfrifoldeb dros ddarlledu ar ysgwyddau’r Adran Ddiwylliant. Ymgynghorir â’r Cynulliad ynghylch materion darlledu a rhown ein barn i’r Adran Ddiwylliant ar sut y mae polisïau darlledu yn effeithio ar wylwyr a gwrandawyr yng Nghymru.

Y CCNC sy’n cyflwyno polisïau’r Cynulliad yn y maes diwylliannol yn bennaf, a sefydliadau eraill a ariennir gennym. Cyngor y Celfyddydau, y Cyngor Chwaraeon a Bwrdd yr Iaith Gymraeg sy’n gwario’r cymorth grant a roddir gennym i’r celfyddydau, chwaraeon a’r Gymraeg. Caiff y grantiau i gyhoeddi llyfrau Cymraeg poblogaidd eu dosbarthu gan Gyngor Llyfrau Cymru.

Mae'r berthynas gyfansoddiadol rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'r CCNC ynddo'i hun wedi'i chyflyru gan drefniadau rheoli ffurfiol a memoranda ariannol. Trefnir cyllidebau'r CCNC a sefydliadau eraill a noddir gan y Cynulliad yn ystod y cylchoedd cynllunio cyllidebau blynyddol.

Pan sefydlwyd y Cynulliad, rhoddwyd y cyfrifoldeb dros faterion diwylliannol ar ysgwyddau'r Ysgrifennydd dros Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 Oed; ac ar ysgwyddau'r Pwyllgor Pwnc a ranai'r un portffolio.

<u>Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg</u>

Creodd y Llywodraeth Bartneriaeth a sefydlwyd ym mis Hydref 2000 swydd newydd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg, i adlewyrchu pwysigrwydd y sector diwylliannol ym mywyd bob dydd Cymru. Sefydlodd hefyd Bwyllgor Pwnc i fod yn gyfrifol am y portffolio hwnnw.

Roedd y Cytundeb Partneriaeth yn ymrwymo'r Weinyddiaeth newydd i nifer o fentrau yn y maes diwylliannol. Ymhlith pethau eraill, roedd y Bartneriaeth yn bwriadu:

- rhoi ystyriaeth lawn i argymhellion 'Diwylliant Cytûn';
- penderfynu ar gyllideb newydd i'r celfyddydau;
- pennu Dydd Gyl Dewi fel diwrnod gyl cenedlaethol i Gymru;
- llunio strategaeth hir dymor ar gyfer y celfyddydau;
- gofyn i'r Cyngor Celfyddydau sefydlu Cronfa Ddata i'r Celfyddydau, a gwefan ar gyfer cwmnïau a digwyddiadau celfyddydol;
- ymchwilio i sefydlu Cronfa Ffilm;
- sicrhau cymorth digonol i Fentrau Iaith.

Mae'r Gweinidog dros Ddiwylliant yn mynd ar drywydd yr ymrwymiadau hyn ar y cyd gyda'r Llywodraeth Bartneriaeth.

## GWELEDIGAETH AR GYFER Y DYFODOL

<u>Gweledigaeth ar gyfer y Celfyddydau</u>

Yn yr adroddiad ar ‘Diwylliant Cytûn’ nodir gweledigaeth gynhwysfawr i’r celfyddydau ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Mae hon yn weledigaeth sydd werth anelu amdani, ac sydd werth ymdrechu i’w chyflawni.

O fewn y weledigaeth honno, mae’n rhaid i ni bwysleisio uchelgeisiau dethol ond allweddol, os ydym am fod yn llwyddiannus yn ein polisi diwylliant.

Dylem anelu at ddatblygu Cymru yn wlad:

- sydd â diwylliant cyfoethog, hyderus, unigryw a chreadigol a rennir;
- sy’n ysgogi lefel uchel o bobl i gymryd rhan yn y celfyddydau ar lefel leol;
- lle mae dwyieithrwydd yn realiti sy’n tyfu;
- lle ceir cysylltiadau cryf rhwng gweithgareddau celfyddydol lleol/cymunedol a’n sefydliadau diwylliannol cenedlaethol;
- lle mae awdurdodau lleol a’r gymuned fusnes yn cefnogi’r celfyddydau a’r diwydiannau creadigol;
- lle gwerthfawrogir y diwydiannau creadigol am yr hyn yr ydynt, am eu cyfraniad gwerthfawr i’r economi ac am roi enw da i Gymru dramor;
- lle rhoddir cydnabyddiaeth i’r cyfraniad pwysig y gall twristiaeth ddiwylliannol ei wneud i’r economi.

## CEFNDIR Y STRATEGAETH

### Tueddiadau Diwylliannol

Hamdden

Mae’r sector diwylliannol eisoes yn cyfrannu’n sylweddol at y diwydiant hamdden yng Nghymru. Mae ein rhwydwaith eang o amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd lleol, a’r cestyll a’r henebion sydd o dan ofal Cadw, yn adnoddau cyfleus i’r rhai sy’n dymuno treulio eu hamser

hamdden yn astudio, darllen neu fwynhau treftadaeth Gymreig. Gwelwyd gwelliant aruthrol mewn cyfleusterau chwaraeon lleol dros y blynyddoedd diwethaf. Dangosir gweithiau o safon uchel mewn sefydliadau cenedlaethol fel y Llyfrgell Genedlaethol, ac Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, sy'n denu ymwelwyr rhyngwladol yn ogystal ag ymwelwyr o Gymru. Mae gwyliau lleol a chenedlaethol Cymru yn denu mwy a mwy o ymwelwyr o lu o wledydd tramor. Yr her i'r sector diwylliannol bellach yw datblygu ei gyfleusterau a'i wasanaethau mewn modd sy'n diwallu anghenion y diwydiant hamdden modern.

## Twristiaeth Ddiwylliannol

Awgryma'r tueddiadau byd-eang fod gan ddigwyddiadau a chyfleusterau diwylliannol y potensial i ddenu amrywiaeth ehangach o lawer o ymwelwyr nag erioed o'r blaen, llawer ohonynt o wledydd tramor. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn denu llawer o ymwelwyr o'r UDA sydd â diddordeb mewn olrhain eu hachau. Bydd cefnogwyr o bob cwr o'r byd yn cael eu denu i Gaerdydd a Chymru i weld achlysuron pwysig y byd chwaraeon rhyngwladol a gynhelir yn Stadiwm y Mileniwm a llefydd eraill. I'r gwrthwyneb, mae'r ffaith fod teithio yn rhad ar wyliau tramor mor hawdd yn her i ni gyd sydd am annog pobl yma i ymweld â'u hatyniadau lleol a chenedlaethol eu hunain.

Mae Datganiad Bwrdd Croeso Cymru o'i Weledigaeth yn pwysleisio pa mor bwysig yw gwneud y gorau o ddiwylliant Cymru sydd ynddo'i hun yn helpu i gynnal hunaniaeth y wlad ac ennyn diddordeb ymwelwyr ynddi yn ogystal â chyfrannu at eu mwynhad. Cred y Bwrdd Croeso bod tirlun a iaith Cymru, ynghyd â bodolaeth amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol, cynhenid a rhyngwladol, yn sicrhau bod Cymru yn gyrchfan sydd â diwylliant llewyrchus a deinamig i'w gynnig. Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i annog mynediad i ddiwylliant o bob math fel modd o ychwanegu at brofiad ymwelwyr a datblygu adnoddau diwylliannol Cymru.

## Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol

Mae creu'r Cynulliad Cenedlaethol wedi codi'n hymwybyddiaeth o'n hunaniaeth genedlaethol a'n balchder ynddi. Ymestyna hyn i'r byd diwylliannol, lle mae gan Gymru gantorion, actorion, artistiaid, awduron a sbortsmyn sydd wedi ennill enwogrwydd byd-eang. Mae gennym gwmnïau fel Opera Cenedlaethol Cymru a Chwmni Dawns Diversions sy'n lysgenhadon o fri dros Gymru, ac sy'n esiamplau heb eu hail o ragoriaeth ein cynyrchiadau. Ceisir barn Bwrdd yr Iaith Gymraeg bellach gan lawer o wledydd eraill yn Ewrop ar gynllunio ieithoedd llai. Mae gan ein sefydliadau diwylliannol cenedlaethol gyfle cyffrous i fanteisio ar yr ymwybyddiaeth genedlaethol a diwylliannol gryfach hon, cyn belled â'u bod yn cyflwyno eu deunydd a'u gwybodaeth mewn modd deniadol a pherthnasol y gall y rhai sydd am ei weld ei ddeall.

## Newidiadau mewn adloniant

Rydym yn byw mewn oes sy'n cynnig adloniant i'r unigolyn ar lefel gynyddol bersonol, wedi'i

gyflwyno drwy gyfrwng technoleg hyd yn oed fwy soffistigedig. Mae fideo, sain bersonol, gemau cyfrifiadur a'r we yn llenwi amser hamdden llawer o bobl. Mae gan bron i draean o dai Cymru deledu digidol, gan ddod â llu o sianeli teledu am ddim neu am bris i mewn i'r cartref. Caiff gwylwyr teledu digidol eu cyflwyno i wasanaethau teledu rhyngweithiol; ffilmiau ar gais; a'r gallu i ddefnyddio'r e-bost a'r rhyngrwyd drwy gyfrwng eu setiau teledu. Yn aml, mae'r tueddiad hwn yn bodoli ar draul adloniannau mwy cyhoeddus y gorffennol. Ond nid yw hyn yn wir bob amser. Mae nifer y bobl sy'n ymweld â'r sinema yn uwch nag ers 30 mlynedd yn ôl. Amlygodd y cam o gynnig mynediad am ddim i'n hamgueddfeydd Cenedlaethol alw anferthol nad oedd yn cael ei ddiwallu. Mae rhai o'n ffurfiau mwyaf traddodiadol o adloniant cyhoeddus mor boblogaidd ag erioed; o'r Eisteddfod Genedlaethol i brysurdeb tafarn yn y Cymoedd ar ddiwrnod rygbi rhyngwladol. Gellir rhannu llawer o gyfleoedd dysgu gydol oes hefyd ag eraill fel y profodd Coleg Digidol Cymru, a chymaint o gyfleusterau eraill.

Effaith amlgyfrwng

Roedd llawer o weithgareddau diwylliannol yn arfer bod yn benodol i le – cynnyrch cymuned a thrigolion arbennig. Yn oes yr amlgyfrwng, gall bobl ledled y byd ymuno mewn gweithgareddau diwylliannol penodol. Gall cynulleidfa fyd-eang edrych ar ddelweddau o ansawdd uchel o waith-llaw diwylliannol; perfformiadau wedi'u recordio; neu holl gynnwys silffoedd ar silffoedd o ddeunyddiau archif, dim ond drwy roi bys ar lygoden. Mae angen i Gymru wneud y gorau o'r technolegau newydd hyn er mwyn dangos ein trysorau diwylliannol i'r byd, gan adeiladu ar y gwaith y cychwynnwyd arno eisoes yn y Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfa Genedlaethol. Mae'r perygl o unffurfiaeth ddiwylliannol fyd-eang y mae'r we yn ei daflu atom yn berygl gwirioneddol. Eisoes, mae'r Undeb Ewropeaidd yn cyflwyno rhaglenni ariannu i ysgogi mwy o gynnyrch digidol Ewropeaidd er mwyn cryfhau presenoldeb holl ieithoedd Ewrop ar y we. Clywir atsain yr agenda Ewropeaidd hon yng Nghymru, gydai'i diwylliant unigryw a dwyieithog.

## Cyd-destun Polisi Cyhoeddus

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol y gallu cyfansoddiadol i gynllunio ei strategaeth ddiwylliannol ei hun. Wrth wneud hynny, mae wastad yn ddoeth ac yn aml yn ddefnyddiol i ni fod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf mewn gwledydd eraill yn y maes diwylliannol. Gall y datblygiadau hynny – a syniadau newydd – ddylanwadu ar yr hyn a wnawn a sut y'i gwnawn. Gallwn wastad wella a diweddaru ein syniadau a'n harferion ein hunain drwy astudio dyfeisgarwch ac arfer gorau mewn gwledydd eraill, drwy feincnodi ein hunain o hyd yn erbyn y safonau rhyngwladol uchaf, a thrwy gymryd mantais ar syniadau am bolisïau – a grantiau – a ddarperir gan gyfundrefnau a sefydliadau eraill.

Y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol

Mae Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol y Cynulliad Cenedlaethol (SDEG), [yr ydym wrthi'n ymgynghori yn ei chylch], yn nodi gweledigaeth am economi Gymreig sy'n

ddeinamig, yn gynhwysol ac yn gynaliadwy, yn seiliedig ar fusnesau cystadleuol o safon byd-eang a phobl cymwys a brwdfrydig. Mae polisïau SDEG yr un mor berthnasol i'r diwydiannau creadigol ag y maent i sectorau eraill o'r economi. Credwn fod gan y diwydiannau creadigol botensial gwych i gael eu datblygu. Rydym yn gobeithio y byddant yn ymateb yn bositif ac yn frwdfrydig i brif sialensau'r SDEG, er mwyn hybu eu gallu eu hunain a hefyd cyfrannu at ein hymdrechion wrth fynd i'r afael â datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal, ac anfantais gymdeithasol.

Diwylliant Cytûn

Cynhaliodd y Pwyllgor dros Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed bryd hynny adolygiad pwysig o'r polisi celfyddydol dros gyfnod o 6 mis. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor, o'r enw 'Diwylliant Cytûn', ar 1 Tachwedd 2000, ac roedd yn gwneud 104 o argymhellion am ddatblygu polisïau.

Mae'r Adroddiad yn nodi Gweledigaeth i Gymru ar gyfer 2010; ac yn trafod natur diwylliant a'r celfyddydau; rôl yr artist a gwerth lleoliadau celfyddydol. Y thema wrth fôn yr Adroddiad yw fod diwylliant a'r celfyddydau yn golygu mwy na'r syniad poblogaidd mai i'r elit, yr etholedig rai a'r cyfoethog yn unig y maent.

Mae'r Adroddiad yn nodi pedwar prif egwyddor y dylid eu defnyddio i fwrw ymlaen â'r polisïau:

- y Cynulliad i fod yn gyfrifol am sefydlu polisïau cyffredinol a diffinio'r modd y'i gweithredir a'i hariennir;
- dylai'r Cynulliad hefyd fwrw ati i sefydlu polisïau a chodi proffil Celfyddydau a Diwylliant Cymru gartref a thramor;
- dylai sefydliadau gwahanol i Gyngor y Celfyddydau gymryd mwy o ran yn y broses, ac y dylid gwneud hyn er mwyn sicrhau gonestrwydd a thryloywder;
- dylai Prif Weinidog Cymru ystyried o ddifrif penodi Gweinidog y Cynulliad sydd wedi'i ymrwymo i Ddiwylliant yn unig.

Ar wahân i rôl y Cynulliad, argymhellodd y Pwyllgor y dylid sefydlu Consortiwm Diwylliannol 'Cymru'n Creu', i ddarparu, ymysg pethau eraill, fforwm ar gyfer trafod cyfleoedd neu broblemau penodol; cefnogi gweithredu mewn partneriaethau; a darparu cyfrwng cyfnewid gwybodaeth agored rhwng y cyrff o dan sylw a Chyngor y Celfyddydau, ac yn y pen draw â Gweinidog y Cynulliad. Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid cadw Cyngor y Celfyddydau ond cafwyd cefnogaeth eang i argymhellion 'Adroddiad Wallace' ar gyfer diwygio.

Roedd yr Adroddiad hefyd yn nodi fod gan awdurdodau lleol rôl hanfodol i'w chwarae i feithrin a chynorthwyo gweithgareddau diwylliannol yng Nghymru; ac yn cydnabod pwysigrwydd

gweithgareddau cymunedol, lleol a gwirfoddol, wrth ddatblygu'r maes celfyddydol a diwylliannol.

'Cymru yn y Byd'

Mae'r Llywodraeth Bartneriaeth wedi sefydlu Is-bwyllgor Cabinet sydd â'r nod o '*godi proffil a dylanwad rhyngwladol Cymru a'i sefydlu fel lle gwych i fyw, astudio a chynnal busnes*'. Wrth wneud hynny, bydd yr Is-bwyllgor yn:

- penderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer codi a chynnal proffil rhyngwladol Cymru;

- nodi a mynd ar drywydd y ffyrdd mwyaf buddiol o gyflawni'r amcanion hynny;

- sicrhau y rhoddir y flaenoriaeth sy'n haeddiannol i faterion rhyngwladol ym mhroses gwneud polisïau'r Cabinet a'r Cynulliad.

Y Comisiwn Ewropeaidd

Creodd Cytundeb Maastricht ym 1992 "sail gyfreithiol ar gyfer gweithgareddau diwylliannol". Noda'r Cytundeb y bydd yr Undeb Ewropeaidd "yn cyfrannu at wneud i ddiwyllianau flodeuo" ac mae'n pwysleisio amrywiaeth ddiwylliannol ranbarthol yn ogystal â'r nod "o ddod â threftadaeth gyffredin Ewrop i'r amlwg". Mae'r Cytundeb hefyd yn dweud fod gan yr Undeb Ewropeaidd ymrwymiad i ystyried yr holl bolisïau eraill yng nghyd-destun diwylliant.

- Gwybodaeth gyffredinol o ddiwylliant a hanes pobl Ewrop.
- Creadigrwydd, lledaenu diwylliant ar draws yr holl wledydd.
- Hybu amrywiaeth ddiwylliannol a datblygu ffurfiau newydd o fynegiant diwylliannol.
- Cyfraniad diwylliant at ddatblygu economaidd-gymdeithasol.
- Hybu dimensiwn Ewropeaidd treftadaeth ddiwylliannol.
- Lledaenu diwylliannau Ewropeaidd i wledydd nad ydynt yn aelod-wledydd a chynnal trafodaethau â diwylliannau eraill y byd.

Cafodd y flwyddyn 2001 ei phennu fel 'Blwyddyn Ieithoedd Ewrop'. Ei diben yw tynnu sylw'r cyhoedd at fanteision dysgu ieithoedd, drwy ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a digwyddiadau a phrosiectau eraill ar lefel Ewropeaidd, genedlaethol a rhanbarthol. Yr ieithoedd cymwys yw 11 iaith swyddogol yr UE, yn ogystal â Gwyddeleg a Letzeburgesch, ac '*ieithoedd eraill a gydnabyddir gan yr aelod-wledydd*' – sy'n cynnwys y Gymraeg. Mae Cymru yn cymryd rhan lawn yn y broses o ddathlu'r flwyddyn ieithoedd ac yn manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir ganddi.

Media II yw offeryn presennol polisi diwydiant ffilm a chlyweledol yr UE. Yr hyn y mae polisi'r UE yn ei bwysleisio yn y maes hwn yw hybu parhad y datblygiadau yn niwydiant clyweledol a

chynnyrch ffilm Ewrop. Mae'r rhaglen Media II yn cynorthwyo i ddatblygu cynyrchiadau newydd, rhwydweithiau dosbarthu newydd, a mesurau hyfforddi a datblygu busnesau. Yng Nghymru, gweithreda asiantaeth gyfryngau Cymru, Sgrîn, fel 'antena' i Media II, gan ddarparu gwybodaeth ac arweiniad i ddarpar-ymgeiswyr sydd am wneud cais am arian gan y rhaglen. Llwyddodd llawer o gwmnïau ffilm a theledu i ddenu grantiau gan y rhaglen.

Ar hyn o bryd, ni cheir unrhyw bwerau Cymunedol uniongyrchol ar gyfer chwaraeon. Nid oedd 'Adroddiad Helsinki ar Chwaraeon', ym mis Rhagfyr 1999, yn gwneud cais amlwg i ddiwygio'r Cytundeb nac am brotocol. Fodd bynnag, awgrymir bod angen rhyw fath o bwerau Undeb Ewropeaidd. Mae'r Adroddiad yn edrych yn benodol ar sut y gallai mwy o gydweithio o fewn yr Undeb Ewropeaidd fod yn ddefnyddiol i frwydro yn erbyn cyffuriau mewn chwaraeon; darparu cymorth i chwaraeon ar lefel leol; defnyddio chwaraeon mewn addysg ac integreiddio cymdeithasol; ac yn fwy cyffredinol, yr effaith all deddfwriaeth Ewropeaidd o bwys ei chael ar gystadleuaeth a rhyddid pobl i symud a rheolau darlledu chwaraeon. Nid yw llywodraeth y DU am weld yr Undeb Ewropeaidd yn cael pwerau ar gyfer chwaraeon ond mae'n cefnogi rhywfaint o gydweithio rhwng yr aelod-wledydd, yn arbennig o ran cyfraith cystadlu a chyffuriau.

### Y Cyngor Prydeinig

Y Cyngor Prydeinig yw prif asiantaeth y DU dros gysylltiadau diwylliannol â gwledydd eraill. Ei ddiben yw codi enw da'r Deyrnas Unedig ledled y byd fel partner gwerth chweil.

Mae'r Cyngor yn codi enw da'r DU ymysg cynulleidfaoedd targed dramor drwy gyfrwng rhaglenni ar addysg, addysgu Saesneg, llyfrgelloedd a gwybodaeth, y celfyddydau, gwyddoniaeth a thechnoleg, a llywodraethu a hawliau dynol. Mae ganddo rwydwaith o 230 o swyddfeydd a chanolfannau addysgu mewn 110 o wledydd.

Mae swyddfeydd y Cyngor yng Nghaerdydd a Bangor yn hybu cyfleoedd i sefydliadau addysgol a diwylliannol yng Nghymru hyrwyddo Cymru dramor. Mae'r swyddfeydd hefyd yn cynorthwyo ymdrechion sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch yn ogystal â chanolfannau Saesneg i ddenu myfyrwyr rhyngwladol i astudio yng Nghymru. Cynigia'r Cyngor Prydeinig yng Nghymru hefyd gyfleoedd i artistiaid, awduron a pherfformwyr Cymreig gael eu gweld ar y llwyfan rhyngwladol. Hefyd, cynhelir digwyddiadau yng Nghymru o dan nawdd y Cyngor Prydeinig i annog a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cyfraniad a allai Cymru ei wneud i ddatblygiadau rhyngwladol mewn addysg, yn y cyfryngau, mewn gwyddoniaeth a thechnoleg a sectorau eraill.

### Cyngor Ewrop

Mae gan Gyngor Ewrop, a sefydlwyd ym 1949, bwyllgor llywio o'r enw'r 'Cyngor dros Gydweithio Diwylliannol'. Cytundeb Diwylliannol Ewrop, a fabwysiadwyd ym 1954, oedd y cytundeb rhyng-lywodraethol cyntaf yn Ewrop ac o fewn y fframwaith cyfreithiol hwnnw y mae'r Cyngor yn gweithredu ei swyddogaeth i hybu cydweithio diwylliannol fel ffordd o ddod â phobl

Ewrop yn agosach at ei gilydd.

Llofnododd y DU Siarter Cyngor Ewrop dros Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol yn ddiweddar. Y Siarter yw'r cytundeb cyntaf i ymgorffori'r camau a gymerwyd gan y DU i gynorthwyo'r Gymraeg a ieithoedd lleiafrifol cynhenid eraill.

UNESCO

Mae Cyfundrefn Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) yn sefydliad rhyng-lywodraethol sy'n gweithredu dros gydweithio deallusol rhyngwladol. Darperir rhai cronfeydd ganddo i gefnogi gwaith prosiect yn ogystal ag ennyn asiantaethau llywodraethol i gyfathrebu, lobïo a chyfnewid syniadau am feysydd megis polisi diwylliannol, hawlfraint a gwarchod treftadaeth ddiwylliannol. Mae gan UNESCO rôl eang yn y broses o gynnal a chadw a gwella treftadaeth ddiwylliannol a naturiol, ac o hyrwyddo diwylliannau byw. Ymhlith ei amcanion presennol, mae UNESCO yn gobeithio:

- meithrin twristiaeth ddiwylliannol fel un o ffactorau datblygu cynaliadwy;

- hyrwyddo addysg artistig;
- gwella diwylliannau traddodiadol a phoblogaidd;
- annog datblygu crefftau;
- codi statws yr artist;
- cryfhau'r diwydiant llyfrau a diwydiannau lleol eraill;
- hybu darllen ac arferion diwylliannol eraill;
- hybu defnyddio'r rhyngrwyd at ddibenion diwylliannol;

**Byd Diwylliannol Cymru**

Byd cyfoethog ac amrywiol yw byd diwylliannol Cymru. Mae llawer yn digwydd yn Saesneg ac yn Gymraeg ac, yn fwyfwy, mewn ieithoedd lleiafrifol eraill. Mae cwmnïau proffesiynol cenedlaethol yn ennill enwogrwydd rhyngwladol, mae argymhellion ar gyfer Canolfan y Mileniwm ymhell ar y blaen, tra bo gweithgareddau celfyddydol gwirfoddol yn ffynnu mewn cymunedau lleol ledled Cymru. Mae'r diwydiannau creadigol yn barod i estyn eu hadennydd, a cheir posibiliadau cyffrous i'r diwydiant ffilm.

Cyfraniad Economaidd

Mae gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn chwarae rhan bwysig yn economi Cymru. Canfu adroddiad ym mis Tachwedd 1998 ar 'Effaith Economaidd y Diwydiant Celfyddydol a Diwylliannol yng Nghymru fod:

- y trosiant blynyddol a grewyd gan y diwydiannau celfyddydol a diwylliannol yng

Nghymru yn £1.1 biliwn;

- 29,000 o bobl yn gweithio yn y diwydiannau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru; 1 o bob 40 o'r boblogaeth sy'n gweithio. Mae hyn yn gyfystyr â 16,000 o swyddi llawn amser.

- gwariant y diwydiannau celfyddydol a diwylliannol wedi creu 7,000 o swyddi llawn amser ychwanegol.

Dwy Iaith – Dwywaith y Dewis

Mae Cymru'n ffodus o gael traddodiad diwylliannol sy'n ffynnu yn Saesneg ac yn Gymraeg. Gweithia llawer o artistiaid a pherfformwyr yn y ddwy iaith, a cheir rhai sy'n perfformio drwy gyfrwng y Gymraeg sydd wedi bod ar deithiau tramor. Gall hyd yn oed y cynulleidfaoedd hynny nad ydynt yn siarad Cymraeg fwynhau perfformiadau yn yr iaith.

Mae'r traddodiadau diwylliannol sydd wedi datblygu ochr yn ochr yn y ddwy iaith yn rhoi nodweddion arbennig iawn i Gymru, yn ehangu ei seilwaith diwylliannol, ac yn ei gwneud yn wlad fwy diddorol i fyw ynddi ac i ymweld â hi.

Presenoldeb mewn Digwyddiadau Diwylliannol

Fe fynychodd 982,000 o bobl o oed 16 a throsodd ddigwyddiadau celfyddydol ym 1999-00. Rhoddwyd targed i Gyngor y Celfyddydau godi'r ffigwr hwn i 1,018,000 yn 2001-02. Roedd gan sefydliadau celfyddydol a ariannwyd gan Gyngor y Celfyddydau drosiant refeniw o £41.5 miliwn ym 1999-00, ac yr ydym wedi pennu targed i'r Cyngor gynyddu hyn i £43.9 miliwn erbyn diwedd 2001-02. Mynychodd tua 352,000 o bobl weithdai celf ym 1999-00, a phennwyd targed i'r ffigwr hwn godi i 420,000 yn 2001-02.

## Y Sectorau Diwylliannol

Er bod y celfyddydau yn wynebu sawl her, yr ydym yn falch o allu adeiladu ar seilwaith diwylliannol eang.

Gwyliau

Mae'n rhaid gwarchod ein heisteddfodau cenedlaethol a rhyngwladol, a'n gwyliau lleol, os ydym am ddal ein gafael ar y cyfoeth a'r amrywiaeth o ddigwyddiadau sydd bellach yn nodweddiadol o rwydwaith gwyliau Cymru. Bydd angen i'r gwyliau hyn addasu er mwyn bodloni sialensau'r mileniwm newydd, cynnal a chodi nifer y bobl sy'n cymryd rhan a safon y cystadlu, ac ennyn a chynnal diddordeb a ffyddlondeb cefnogwyr newydd.

Dawns

Mae'r sector dawns yng Nghymru yn datblygu proffil cenedlaethol a rhyngwladol gyda thwf aruthrol mewn dawns a choreograffeg gan artistiaid a chwmnïau amatur a chymunedol. Mae llawer o gwmnïau ac unigolion o Gymru yn teithio'n rhyngwladol ac yn perfformio'n aml mewn gwyliau yn y DU, Ewrop a thu hwnt. Mae llawer o sialensau yn wynebu'r byd dawns cyn iddo wireddu ei lawn botensial.

Cerddoriaeth

Mae llawer o wledydd yn eiddigeddus o Gymru am ansawdd ei pherfformwyr ac amrywiaeth ei cherddoriaeth – o ganu corawl, opera, cerddoriaeth werin a thraddodiadol i'r diwydiant cerddoriaeth roc tanbaid. Mae'n rhaid i ni sicrhau eu dyfodol. Mae Cymru'n falch o Opera Cenedlaethol Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, ac artistiaid unigol fel Bryn Terfel a Catatonia, ble bynnag a phryd bynnag y byddant yn perfformio.

Theatr

Mae cynulleidfaoedd theatr yng Nghymru yn gyfarwydd a gweld pethau eithriadol gan gwmnïau amatur a phroffesiynol. Mae Clwyd Theatr Cymru yn gwmni rhagorol i fymru sy'n denu artistiaid a chyfarwyddwyr sydd ymhlith goreuon y byd. Mae cwmnïau eraill ledled Cymru yn llwyfannu cynyrchiadau dyfeisgar o safon uchel yn gyson ac yn haeddiannol wedi magu dilynwyr ffyddlon. Bydd cwmnïau y tu allan i Gymru hefyd yn dod â'u cynhyrchiadau draw, fel y gwnaeth y Royal Shakespeare Company gyda thaith 'Taming of the Shrew' yng Nglyn Ebwy.

Darlledu a Ffilm

Mae gan ddarlledu a ffilm y per unigryw i hyrwyddo delwedd Cymru dramor, yn ogystal â chyfrannu at ddatblygiad economaidd o fewn Cymru. Mae S4C, BBC Cymru a HTV oll yn helpu i greu diwylliant gwneud ffilmiau a rhaglenni unigryw. Sgrîn, Asiantaeth Gyfryngau Cymru, a'r Wyl Ffilm Genedlaethol sy'n gwneud y gwaith gwerthfawr o ddatblygu'r sector hwn. Mae gan y sector botensial aruthrol i ddatblygu.

Celfyddydau Gweledol

Mae'r celfyddydau gweledol yn ffynnu yng Nghymru, â darluniau artistiaid megis Syr Kyffin Williams, a'n cerflunwyr, yn boblogaidd tu hwnt. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol, yr Amgueddfa Genedlaethol ac orielau lleol yn berchen ar gyfoeth o weithiau celf ac mae'n rhaid ei gwneud hi'n haws i ni oll eu gweld, ym mhob rhan o'r wlad, os ydym am eu mwynhau ac am ddysgu ohonynt.

Crefftau

Mae nifer y crefftwyr sy'n gweithio yng Nghymru yn tyfu a gwnânt gyfraniad gwerthfawr i'n diwylliant a'n heconomi. Mae canolfannau crefftau ledled Cymru bellach yn arddangos amrywiaeth drawiadol o weithiau gan wneuthurwyr gemwaith ac offerynnau cerdd, gwehyddwyr, cynllunwyr dillad, crochenwyr, artistiaid 3-D, yn ogystal â chrefftwyr sy'n gweithio gyda choed a chrochenwaith. Yr hyn sydd ei hangen arnom nawr yw strategaeth gyffredinol i annog a chynorthwyo'r rheiny sy'n gweithio yn y diwydiannau crefftau hyn.

Llenyddiaeth

Gall Cymru ymfalchïo yn un o draddodiadau llenyddol byw hynaf Ewrop.

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cynorthwyo'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, yn marchnata llyfrau o Gymru ac yn gweinyddu grantiau ar gyfer llyfrau Cymraeg. Cynorthwyir amrywiaeth eang o weithgareddau llenyddol gan Gyngor y Celfyddydau ac mae 'Academi' yn darparu cymorth a gwybodaeth i'w aelodau. Er bod cyhoeddwyr yng Nghymru yn cynhyrchu amrywiaeth eang o lyfrau academaidd a hamdden i oedolion a phlant, teimla'r gymuned lenyddol ei bod yn parhau i fod ar gyrion y polisi diwylliannol cyffredinol. Mae'n rhaid i ni newid y sefyllfa hon os ydym am i'n hawduron gael cyfle i ddatblygu ac ymestyn eu talentau llenyddol, a chael eu gwobrwyo'n haeddiannol am eu hymdrechion.

Celfyddydau Cymunedol

Mae gan grwpiau celfyddydol cymunedol rôl allweddol yn y broses o annog pawb i gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, ac mae'n rhaid meithrin y grwpiau hyn. Mae'n cwmnïau theatr mewn addysg wedi agor llygaid llu o bobl ifanc i fwyniant drama. Llwyddodd grwpiau dawns cymunedol i roi rhwydd hynt i greadigrwydd, dychymyg a sgiliau cymdeithasol pobl ifanc o bob gallu. Mae Cerddoriaeth Gymunedol Cymru yn rhoi'r cyfle i bobl yng Nghymru greu a chwarae cerddoriaeth – yn arbennig y rheiny nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol o ganlyniad i anfantais neu anabledd. Mae sefydliadau fel CADMAD a Permanent Waves yn agor mwy o ddrysau i'r celfyddydau i leiafrifoedd ethnig a merched.

Datblygu strategol pellach yn y celfyddydau cymunedol yw un o brif sialensau sefydliadau ac arianwyr canolog y celfyddydau.

## BLAENORIAETHAU

Bydd ein polisïau wedi'u cynllunio er mwyn cyflawni'r dyheadau a amlinellir yn 'Diwylliant Cytûn', sef:

i. cyfoeth o ddiwylliant er mwyn cryfhau ein cymunedau.
ii. amrywiaeth hyderus – gan fanteisio ar ein hunaniaeth a’n harbenigrwydd cadarnhaol.
iii. gwlad sy’n dysgu ac a gefnogir gan weithgarwch celfyddydol a diwylliannol byw.
iv. diwydiant blaengar, a diwylliant creadigol.
v. uchelgais genedlaethol, a dylanwad rhyngwladol.

**CYNLLUN GWEITHREDU**

Mae’r adran hon yn amlinellu’r camau y bydd raid inni eu dilyn er mwyn sefydlu a mynd ar drywydd polisi diwylliannol grymus a chynhwysol sydd wedi ei gynllunio ar gyfer Cymru fodern. Mae’r Llywodraeth Bartneriaeth wedi cyflwyno amryw o fentrau ymarferol sy’n seiliedig ar egwyddorion a gwerthoedd y Cynulliad; a fydd yn gwella arferion gwaith, yn dod â’r gwaith o weinyddu’r celfyddydau yn agosach at y bobl y mae’n eu gwasanaethu, ac yn arddangos polisïau a blaenoriaethau sydd wedi eu gosod allan yn glir.

Bydd modd cyflwyno rhai o’r newidiadau a’r syniadau yn gymharol gyflym o fewn yr adnoddau sydd ar gael yn y cyllidebau presennol. Bydd raid cyflwyno’r lleill yn fwy graddol pan a phryd y bydd adnoddau ychwanegol ar gael yn dilyn cylchoedd cynllunio’r gyllideb yn y dyfodol. Mae hyn yn gwbl gyson â’r syniad o raglen 10 mlynedd a ragwelir yn ‘Diwylliant Cytûn’.

**Diwylliant Cyfoethog – Cymunedau Cryf**

Ein hegwyddor sylfaenol yw bod modd, ac yn wir y dylai, profiadau diwylliannol cyfoethog, chwaraeon a’r Gymraeg, fod ar gael i bawb, waeth beth fo’u hincwm na’u amgylchiadau eraill. Bydd ein polisïau diwylliannol yn cael eu cynllunio er mwyn sicrhau bod cymunedau ledled Cymru yn gallu elwa ar rai o’r manteision hyn.

Byddwn am weld Cyngor y Celfyddydau, yn arbennig, yn datblygu strategaethau a fydd yn cydnabod pwysigrwydd gweithgaredd gwirfoddol i drwch y boblogaeth yn ein cymunedau wrth ddatblygu’r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru, ac yr ydym wedi gofyn iddynt wneud hynny. Yr ydym am eu gweld yn gwneud hyn tra ar yr un pryd yn amddiffyn safle’r cwmnïau cenedlaethol. Mae gan y cwmnïau hyn sydd ar flaen y gad yng Nghymru rôl werthfawr i’w chwarae o ran datblygu rhagoriaeth, a hyrwyddo delwedd Cymru o fewn y DU a thramor. Rhaid iddynt allu gwneud hynny mewn cydweithrediad â chwmnïau celf cymunedol, ac nid trwy gystadlu â hwy.

Dylid ystyried gweithgareddau diwylliannol fel elfen hanfodol o raglenni adfywio. Yr ydym wedi gofyn i CCNCau Diwylliannol gynllunio ar y sail y dylai eu polisïau helpu i gefnogi adfywiad

cymunedol, a byddwn yn bwrw ymlaen â hyn trwy gyfrwng Cymru'n Creu. Mae hefyd yn bwysig bod synergedd rhwng y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf a gweithgarwch diwylliannol.

Yr ydym am sicrhau bod pob grp cymunedol yn ymwybodol, yn deall, ac yn gallu manteisio i'r eithaf ar bob math o ffynonellau arian loteri, a chymorth ariannol Ewropeaidd.

- Bydd Cyngor y Celfyddydau yn cynnal adolygiad o'r modd y mae'n ariannu, a rôl, y cyrff strategol a'r cyrff ambarél yn 2001-02 er mwyn gweld sut y gallant weithio'n fwy effeithiol ag ef. Byddant yn archwilio materion sy'n ymwneud â hyfforddiant ac yn ystyried sut y gallant gydweithio'n agosach gyda'r cyrff ambarél. Bydd hyn yn gymorth i'r Cyngor rhoi focws mwy effeithiol i'w polisïau a'i cyllido.

- Bydd ailstrwythuro Cyngor y Celfyddydau yn cryfhau gweithgareddau rhanbarthol y corff. Bydd hyn yn ei alluogi i ddarparu cyngor mwy effeithiol ac uniongyrchol i ymarferwyr lleol ar ddulliau o sicrhau arian Ewropeaidd.

- Bydd Cyngor y Celfyddydau yn adolygu eu gweithdrefnau ar gyfer ceisiadau grant gyda'r bwriad o greu trefniadau symlach, mwy uniongyrchol; a sicrhau mwy o gysondeb rhwng y gweithdrefnau ar gyfer delio â cheisiadau am arian loteri a chymorth grant.

- Bydd yr Amgueddfeydd a'r Orielau Cenedlaethol, a Chyngor yr Amgueddfeydd, yn sicrhau bod trysorau Cymru yn cael eu cyflwyno yn ehangach mewn amgueddfeydd lleol ledled Cymru. Bydd y ddau sefydliad yn cydweithio â'i gilydd ar gynllun peilot i sefydlu'r arferion gorau ar gyfer cyflawni'r amcan hwn.

- Mae'n rhaid i bob cymuned yng Nghymru gael mynediad i ystod o gyfleusterau celf sydd wedi'u cynllunio a'u lleoli yn briodol. Bydd Cyngor y Celfyddydau yn cynnal archwiliad o leoliadau celf, gan gynnwys eu hyd a'u lled daearyddol, er mwyn cynllunio rhaglen fuddsoddi gytbwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y cyfnod hyd at 2005.

- Byddwn yn cydweithio ag awdurdodau lleol a CLILC er mwyn ceisio sicrhau bod y cyfraniad y gall ddiwylliant ei wneud i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn cael sylw digonol yng nghyd-destun strategaethau cymunedol.

- Byddwn yn neilltuo hyd at £2 miliwn ychwanegol y flwyddyn er mwyn rhoi hwb i weithgareddau diwylliannol mewn cymunedau lleol yng Nghymru os a phan gaiff y cynigion i adeiladu Canolfan Mileniwm Cymru eu cymeradwyo. Bydd hyn yn rhoi cefnogaeth ychwanegol i artistiaid o bob cwr o Gymru i'w galluogi i ffynnu yn eu hardaloedd eu hunain ac felly sicrhau bod modd i'r Ganolfan dynnu ar yr amrywiaeth gyfoethog o dalent sydd gan Gymru i'w chynnig.

- Yr ydym wedi'n ymrwymo i godi statws celfyddyd gyhoeddus. Fel rhan o hyn, byddwn yn

archwilio dulliau o godi proffil y cynllun ‘Celfyddyd ar gyfer Pensaernïaeth’, ac o annog mwy o sefydliadau i’w ddefnyddio.

- Yr ydym yn ystyried cynigion ar gyfer Comisiwn Dylunio i hyrwyddo safonau uchel o ran dylunio a phensaernïaeth yng Nghymru, trwy hyrwyddo gwell dealltwriaeth o faterion dylunio a pha mor bwysig yw safonau i wella ein hamgylchedd adeiledig.

**Amrywiaeth Hyderus – Hunaniaeth Gadarnhaol**

Gwnaed ymrwymiad gennym yn ‘Gwell Cymru’ i fynd i’r afael ag anfantais gymdeithasol ac i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle. Byddwn yn disgwyl i bob CCNC diwylliannol gydweithio ag ymarferwyr men cymunedau lleiafrifoedd ethnig er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth drwyadl o anghenion y cymunedau hynny, a’u bod yn saernïo polisïau sy’n bodloni’r anghenion hynny. Mewn democratiaeth fodern ac aeddfed, mae’r dyhead hwn yn asio’n gyfforddus â’n penderfyniad i drysori ac amddiffyn ein hunaniaeth.

Mae’n debyg mai’r Gymraeg yw un o’r nodweddion mwyaf amlwg sy’n gwneud Cymru yn genedl ar wahân. Byddwn yn creu’r hinsawdd a’r amgylchiadau a fydd yn sicrhau bod modd cryfhau’r Gymraeg a’i datblygu fel cyfrwng beunyddiol egnïol o gyfathrebu.

- Byddwn yn cyfrannu’n llawn at adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o’r polisi ar y Gymraeg, ac yn ystyried ei ganfyddiadau yn ofalus. Cefnogi’r Gymraeg fydd un o flaenoriaethau allweddol ein polisïau.

- Yr ydym wedi gofyn i Gyngor y Celfyddydau weithio gyda CLlLC, yr Amgueddfa Genedlaethol, Cyngor yr Amgueddfeydd, y Llyfrgell Genedlaethol a’r Cyngor Llyfrgelloedd a Gwasanaethau Gwybodaeth, er mwyn adolygu eu polisïau presennol i gynnal ac annog y Gymraeg, tra ar yr un pryd yn parchu amrywiaeth eang diwylliant yng Nghymru, a chynllunio o blaid cyfle cyfartal.

- Yr ydym wedi gofyn hefyd i’r cyrff hyn bennu targedau realistig ond heriol ar gyfer sicrhau cyfle cyfartal.

- Yr ydym wedi sefydlu Grp Gorchwyl a Gorffen i ystyried sut y gellid ffrwdlinellu’r trefniadau ar gyfer ariannu Cyngor Llyfrau Cymru, ac i lunio strategaeth ar gyfer datblygu’r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, ar gyfer llyfrau Cymraeg a Saesneg.

- Byddwn yn cydweithio â Bwrdd Croeso Cymru i ddatblygu Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol, a gaiff ei chefnogi gan ein partneriaid yn Cymru’n Creu.

- Mae Cyngor y Celfyddydau yn cynnal adolygiad o’r cynlluniau ar gyfer darparu cymorth grant ac arian loteri. Bydd yr adolygiad yn cynnwys ystyried cynllun i ddarparu

bwrsariaethau ar gyfer artistiaid a cherddorion unigol.

- Yr ydym wedi darparu cymorth ariannol i alluogi Urdd Gobaith Cymru i gyflwyno ymgyrch hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth am ei weithgareddau ac i hybu aelodaeth.

- Yr ydym yn llwyr gymeradwyo Strategaeth Amrywiaeth Ddiwylliannol Cyngor y Celfyddydau a lansiwyd gan y Gweinidog Diwylliant fis Ebrill 2001. Strategaeth yw hon sy'n hyrwyddo cydraddoldeb mynediad i ystod lawn o ddigwyddiadau celfyddydol ar gyfer pobl o bob oed, gallu, diwylliant a chymuned.

- Yr ydym wedi'n ymrwymo i chwilio am fwy o ymgeiswyr du ac o leiafrifoedd ethnig yn gwneud cais i ddod yn aelodau o CCNCau. Hoffem weld y cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynrychioli ar o leiaf hanner o'n CCNCau diwylliannol erbyn 2003.

**Gwlad sy'n Dysgu – Diwylliant Cyfoethocach**

Yr ydym yn disgwyl i'r holl sefydliadau sydd â rôl i'w chwarae mewn addysg a hyfforddiant gydweithio er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol wedi'i gydlynu ar gyfer oedolion a phobl ifanc.

- Bydd Cadeirydd Tasglu Cyngor y Celfyddydau ar 'Y Celfyddydau a Phobl Ifanc' yn datblygu cynigion ac yn cynghori'r Gweinidog Diwylliant ar sut y gellid cyfranogi a chefnogi sefydliadau celf pobl ifanc cenedlaethol yn well y dyfodol.

Yr ydym wedi ymrwymo'r arian canlynol trwy'r Gronfa Cyfleoedd Newydd er mwyn rhoi Rhwydwaith y Bobl ar waith yng Nghymru.

- £870,000 er mwyn darparu Hyfforddiant TGCh ar gyfer staff llyfrgelloedd cyhoeddus;

- £6.5 miliwn i ddatblygu seilwaith rhwydwaith llyfrgelloedd o dan y fenter Mynediad Cymunedol i Ddysgu Gydol Oes; a

- £50 miliwn (ar draws y DU) ar gyfer digideiddio deunyddiau dysgu.

Yr ydym ar hyn o bryd yn cynnal project i ddatblygu ansawdd safonau ar gyfer awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus. Y nod yw cyhoeddi safonau fel y gall y rhai sy'n defnyddio llyfrgelloedd am y tro cyntaf wybod pa fath o wasanaeth y gallant eu derbyn; a bydd cynghorau yn gallu cynllunio ar gyfer y dyfodol gan wybod y byddant yn bodloni eu dyletswyddau statudol i ddarparu gwasanaeth llyfrgell 'cynhwysfawr ac effeithiol'. Bydd rhai o'r ffactorau allweddol yn cynnwys darparu nifer digonol o staff proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi, gwario ar lyfrau, oriau agor a mynediad i dechnoleg newydd.

Yn Ebrill 2000 sefydlwyd Resource: Cyngor yr Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd gan yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Disodlodd hwn y Comisiwn Llyfrgelloedd a Gwybodaeth (fel corff â'i gylch gwaith yn cynnwys Lloegr a Gogledd Iwerddon, ond gyda chynrychiolaeth o Gymru ar rai pwyllgorau) ac mae hefyd yn cwmpasu'r sector archifau.

Mae'n fwriad gennym gyhoeddi papur ymgynghori a fydd yn amlinellu opsiynau posibl ar gyfer strwythurau ymgynghorol yn y dyfodol yng Nghymru. Byddwn yn mabwysiadu'r model a fydd orau i Gymru, gan ystyried effeithlonrwydd trefniadaethol, effeithiolrwydd cost, anghenion y sectorau unigol, a'r dymuniad i annog cydweithio clòs rhyngddynt o fewn Cymru tra'n cadw cysylltiadau â'n sefydliadau cyfatebol yn Lloegr lle bo hynny'n briodol.

Yn y cyfamser, fe fyddwn yn paratoi concordat rhyngddom ni a Resource a fydd yn disgrifio'i berthynas a'r sector amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd yng Nghymru.

Mae'r Cynulliad yn cydnabod pa mor bwysig yw rhoi cyfleoedd i'n holl bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol, waeth beth fo'u cefndir cymdeithasol a'u man byw. O dan y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru, mae cerddoriaeth yn orfodol hyd at a chan gynnwys Cyfnod Allweddol 3. Mae'r Cynulliad hefyd yn darparu £8 miliwn dros gyfnod o dair blynedd (1998-99 hyd 2001-02) i gefnogi ystod eang o weithgareddau cerdd allgwricwlar. Mae prif ran yr ariannu (£6.5 miliwn) wedi ei neilltuo i awdurdodau addysg lleol fel rhan o'r Grantiau ar gyfer Cynnal Addysg a Hyfforddiant. Mae'r gweithgareddau cymwys yn cynnwys prynu offerynnau cerdd, gwersi offerynnol, hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon a chefnogaeth ar gyfer cerddorfeydd ieuenctid, bandiau pres ieuenctid, corau ieuenctid ac ensembles cerddorol eraill.

Mae'r gweddill yn cael ei ddyrannu trwy Gronfa Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru. Nid yw'r arian wedi ei neilltuo ar gyfer ysgolion ac AALl yn unig. Bydd yn cynnal mentrau ar draws cymunedau a fydd yn cyd-fynd â strategaethau'r AALl ac yn cyfrannu at wireddu nodau ac amcanion y Gronfa.

Byddwn yn adolygu trefniadau'r dyfodol ar gyfer cefnogi gwasanaethau cerdd awdurdodau lleol dros y flwyddyn i ddod.

Mae perthynas gadarn rhwng y mesurau sy'n angenrheidiol i gynnal diwydiant creadigol, a dysgu, twf economaidd, cyfoethogi'n cymunedau a safon byw. Mae'r manteision yn amrywio'n uniongyrchol yn ôl pa mor egnïol yw'r berthynas honno. Mae arloesi ym myd y celfyddydau, gwyddoniaeth a thechnoleg yn symbylu gwlad sy'n dysgu, greadigol, ac yn cael ei hyrwyddo gan wlad o'r fath. Rhaid inni wynebu'r ffaith bod cyfraddau gweithgarwch economaidd Cymru yn isel o'u cymharu â gwledydd eraill; lefel y sgiliau a chymwysterau yn isel er gwaethaf cynnydd sylweddol yn ddiweddar ; anweithgarwch yn gymharol uchel ymhlith y boblogaeth sydd mewn oed gwaith; cyflogau a chynhyrchiant isel; cyfran y GDP mewn sectorau twf uchel, a sectorau ychwanegu gwerth uchel yn isel; amrywiaeth fawr mewn perfformiad economaidd yn rhanbarthol; a bod nifer y busnesau yn fach o'i gymharu â maint y boblogaeth. Dengys hyn

bwysigrwydd y Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant; y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol; a chylch gwaith y Cyngor Cenedlaethol ELWa.

Ein nôd yw annog diwylliant o ddysgu gydol oes ar gyfer pob un o'n pobl, er mwyn datgloi'r cyfle i bawb ennill yr hyder i allu fod yn hyblyg ac yn arloesol, ac er mwyn gwneud y gorau o'r etifeddiaeth ddiwylliannol ddeinamig yng Nghymru. Yn ein barn ni rhaid i'r gwaith hwn ddechrau yn ystod y blynyddoedd cynharaf posibl – a dyna'n rhannol pam ein bod yn bwriadu sicrhau bod addysg hanner amser mewn lleoliadau wedi'u cymeradwyo ar gael am ddim i bob plentyn 3 oed, os mai dyna ddymuniad eu rhieni, erbyn Medi 2004.

Mae dysgu'r Gymraeg, a'r ffaith bod addysg ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, yn nodweddion allweddol unigryw system addysg Cymru. Trwy ymdrwytho'r disgyblion yn y Gymraeg mae cyfle i ddisgyblion nad yw'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt ddatblygu sgiliau siarad, darllen ac ysgrifennu sy'n debyg i blant o gartrefi Cymraeg. Mae gennym eisoes enghreifftiau da o raglenni trochi iaith llwyddiannus – ar gyfer y blynyddoedd cynnar gan fudiadau megis Mudiad Ysgolion Meithrin hyd at ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng-Cymraeg neu ddwyieithog dynodedig, a chanolfannau ar gyfer hwyr-ddyfodiaid sy'n darparu cyrsiau Cymraeg dwys ar gyfer plant sy'n dod i gyswllt â'r Gymraeg am y tro cyntaf. Yr ydym yn credu ei bod hi'n bwysig dysgu o brofiad addysg drochi mewn rhannau eraill o'r byd. Yn wir, efallai fod gan Gymru wersi y gallai eu rhannu â gwledydd eraill lle mae addysg ddwyieithog yn norm.

Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen inni ymestyn ymhellach y gwaith parhaus o wella'r berthynas rhwng diwylliant, creadigrwydd, a dysgu.

- Yr ydym wedi comisiynu Estyn i gynnal arolwg o weithgareddau celfyddydol a'u darpariaeth ar gyfer Cyfnodau allweddol 2 a 3, er mwyn darparu sylfaen o dystiolaeth ar gyfer datblygu yn y dyfodol bolisïau a fydd yn effeithio ar ysgolion cynradd ac uwchradd.

- Gofynnwyd hefyd i Estyn ystyried y dull gorau o sicrhau bod y celfyddydau a blaengarwch creadigol yn rhan o weithgareddau allgyrsiol ar gyfer pobl ifanc yn ein hysgolion, yng nghyd-destun datblygu rhagoriaeth yn yr 21ain Ganrif.

- Mae Addysg Ychwanegol yn cael ei ariannu i lunio Cod Ymarfer a gaiff ei gyhoeddi yn y flwyddyn academaidd i ddod ar y gweithgareddau y tu allan i'r ysgol sydd â'r gallu i ysbrydoli creadigrwydd yn ehangach. Bydd y Cod yn cynnwys gwybodaeth ar gyfres o brojectau arddangos sy'n cael eu hariannu gan y Cynulliad Cenedlaethol.

- Bydd ACCAC yn ystyried y gofynion ar gyfer deunyddiau newydd i gefnogi ysgolion i gymhwyso'r Cwricwlwm Cymreig. Mewn perthynas â'r rhaglenni astudio mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig ar gyfer Cymru bellach yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddysgwyr astudio, ac i werthfawrogi, bwysigrwydd a chryfder talent greadigol Cymru.

- Bydd Tîm Cymru y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu yn dwyn ynghyd, ac yn sicrhau, law yn llaw ag ACCAC fel sy'n briodol, ddeunyddiau a gynhyrchwyd yn lleol ar y diwylliannau a'r celfyddydau yng Nghymru, ac yn sicrhau eu bod ar gael yn ehangach i ysgolion.

- Bydd ACCAC yn gweithio ar ganllawiau a fydd yn amlygu'r cyfle y mae gofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yn eu cynnig ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal a dealltwriaeth o ddiwylliannau amrywiol – yn bennaf trwy gyfrwng y rhaglen gelf.

- Byddwn yn sicrhau bod Gyrfaoedd Cymru yn cysylltu â'r diwydiannau creadigol er mwyn sicrhau bod y cyfleoedd gyrfaol perthynol (gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith) ar gael yn ehangach. Bydd yr agenda "Ymestyn Hawliau" ar gyfer pobl ifanc hefyd yn cadw hyn mewn cof.

- Byddwn yn ystyried y cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer cyflwyno cronfa datblygu'r celfyddydau a cherddoriaeth ar gyfer ysgolion, pan a phryd y bydd adnoddau yn caniatáu.

- Byddwn yn sicrhau bod y camau i weithredu Cynllun Mentergarwch Cymru yn cynnig cyfleoedd sylweddol i ddysgwyr gael profi pa mor fywiog yw diwydiannau cymunedol â'u llygaid eu hunain - ac i ddarparwyr ôl-16 eu cefnogi.

- Byddwn yn adolygu'r rhwydweithiau cyfnewid sydd eisoes yn bodoli ar gyfer myfyrwyr a disgyblion – yn arbennig y rhai hynny sy'n gysylltiedig â datblygiad proffesiynol parhaus athrawon a darlithwyr – er mwyn sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i hyrwyddo ac ymestyn cyflawniadau diwylliannol Cymreig ymhellach.

- Byddwn yn sicrhau bod datblygiad strategaeth 10 mlynedd ar gyfer addysg uwch a gafodd ei haddo o dan y Cytundeb Partneriaeth yn ystyried yn llawn y modd y gall ymelwa ar wybodaeth gyfrannu at, ac elwa ar, y diwydiannau diwylliannol a chreadigol.

- Byddwn yn annog cydweithio cadarn rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol er mwyn sicrhau bod sylfaen ymchwil gadarnach yn cael ei sefydlu yng Nghymru; i drosglwyddo manteision ysgolheictod, technoleg a gwyddoniaeth er budd cymdeithasol ac economaidd ehangach; ac er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfalaf diwylliannol ehangach a gynrychiolir gan asedion nodedig megis Techniquest a'r Gerddi Botanegol.

- Yr ydym wedi cyhoeddi adroddiad y Tasglu Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol sy'n hyrwyddo gweledigaeth gyffredin ar gyfer codi safonau a chryfhau effeithlonrwydd y ddarpariaeth a'r dull y caiff ei gyflwyno. Yr ydym yn credu ym mhwysigrwydd addysg gorfforol a chwaraeon ysgol ac yn y cyfraniad hanfodol y mae'n ei wneud i gynnal iechyd

a ffitrwydd plant.

- Yr ydym wedi neilltuo £500,000 eleni er mwyn dwyn nifer o'r argymhellion yn adroddiad y Tasglu Ymarfer Corff a Chwaraeon Ysgol ynghyd – gan gynnwys datblygu rhaglenni ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus athrawon a sefydlu Canolfannau Datblygu Cwricwlwm i adnabod, cryfhau a datblygu arferion da mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgol. Caiff cydlynydd cenedlaethol ei benodi i oruchwylio'r gwaith ac i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gweithredu rhannau eraill o'r adroddiad hwn.

- Byddwn yn mynd ati i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu mewn dull a fydd yn ei gysylltu ac yn ei asio â'r £48.75 miliwn a gaiff ei ddarparu ar gyfer Addysg Gorfforol a chwaraeon yng Nghymru gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd – gan ganolbwyntio'n benodol ar wella cyfleusterau chwaraeon.

- Byddwn yn archwilio, law yn llaw â'r rhai sydd â phrofiad uniongyrchol o addysg drochi yng Nghymru, sut y gallwn ehangu'r ddarpariaeth, nid yn unig ar gyfer y disgyblion hynny sy'n dewis addysg ddwyieithog yn gynnar yn eu bywydau, ond hefyd ar gyfer y sawl sy'n dymuno trosglwyddo yng nghanol eu gyrfa ysgol. Ar yr un pryd, byddwn yn archwilio peth o'r dystiolaeth ryngwladol fel, lle bo hynny'n briodol, fel y gallwn fanteisio ar brofiad y sawl y mae addysg drochi yn nodwedd o'u system addysg.

- Yr ydym wedi cynyddu lefel yr adnoddau a gyfeirir tuag at y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer Saesneg fel ail iaith yn sylweddol. Yr ydym hefyd yn edrych yn ofalus ar ddosbarthu'r adnoddau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu'r nifer allai elwa a mwyhau'n bellach amrywiaeth diwylliannol ehangach Cymru.

**Diwydiant Blaengar – Diwylliant Creadigol**

Nid oes modd inni ddatblygu polisïau llwyddiannus a phwrpasol ar gyfer y diwydiannau creadigol os nad oes gennym ddarlun clir o'r sefyllfa bresennol. Ychydig iawn o ddata ar y sector diwylliannol yng Nghymru a etifeddwyd gennym – er enghraifft, nid oes gennym ddim i'w gymharu â Dogfen Mapio Diwydiannau Creadigol yr Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'n rhaid inni unioni hyn os ydym am baratoi polisïau newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn berthnasol i'r sefyllfa bresennol. Felly, bydd Cymru'n Creu yn rhoi blaenoriaeth uchel i lenwi'r gagendor hwn mewn gwybodaeth.

Mae'r penderfyniad i sefydlu Cymru'n Creu ynddo'i hun yn ddull radical newydd o gydweithredu. Mae Cymru'n Creu wedi cychwyn eisioes ar nifer o brosiectau er hyrwyddo'r diwydiannau creadigol.

- Mae Bwrdd Croeso yn cadeirio is-grwp a fydd yn paratoi strategaeth i ddenu prif

ddigwyddiadau i Gymru.

- Mae Cyngor y Celfyddydau yn cyd-lynnu astudiaeth ar sut mae'r diwydiannau creadigol yn denu cyllid o Ewrop.

- Mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi cychwyn astudiaeth o'r modd y gellir defnyddio'r dechnoleg newydd yn fwy effeithiol i arddangos trysorau Cymru.

- Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn arwain is-grwp i ystyried sut all aelodau Cymru'n Creu gyd-weithio i gefnogi awduron a hybu gwerthiant llyfrau Cymraeg a llyfrau o ddiddordeb Cymreig.

- Mae'r WDA yn arwain Is-Grwp i gydlynu ac i gasglu'r data diweddaraf ar y diwydiannau creadigol.

Byddwn yn sicrhau bod y technolegau newydd yn cael eu defnyddio'n well wrth hyrwyddo a throsglwyddo diwylliant Cymreig.

- Fel y nodwyd yn ein Cytundeb Partneriaeth yr ydym wedi gofyn i Gyngor y Celfyddydau asesu'r model gorau ar gyfer Cronfa Ddata i Gymru, a gwefan ar gyfer Celfyddyd Gymreig a fydd yn cynnwys manylion am bob cwmni a digwyddiadau.

- Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn arwain is-grwp Cymru'n Creu ar wybodaeth a thechnoleg gyfrifiadurol. Bydd y Grp yn archwilio pa mor ymarferol fyddai sefydlu project 'Diwylliant Ar-lein Cymru'.

- Mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi arwain project gan gonsortiwm o CCNCau ('Casglu'r Tlysau') er mwyn ennill arian gwerth £1 miliwn o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd i ddarparu gwybodaeth ddigidol ar-lein ar hanes Cymru.

- Mae'r WDA yn pwysleisio pwysigrwydd y diwydiannau creadigol i'r economi ac maent yn annog clystyrau i ddatblygu yn y sector hwn, sy'n cynnwys Busnesau Bach a Chanolig sy'n chwarae ran mewn cynyrchiadau Teledu/ffilm, Cyfryngau Newydd, cyhoeddi a chelf a dylunio.

- Mae'r WDA, Cyngor y Celfyddydau a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn cydweithio i drefnu cynhadledd yn 2001, gyda'r bwriad o sefydlu Fforwm Economaidd ar y Diwydiannau Creadigol.

- Yn 2001-02, bydd £4.5 miliwn o gymorth grant y Cynulliad i'r WDA yn cael ei wario ar ddatblygiadau bwyd-amaeth, gyda dros £1.8 miliwn yn cael ei neilltuo i hybu bwyd.

- Yr ydym yn croesawu, ac fe fyddwn yn parhau i gefnogi, ymdrechion y Celfyddydau a Busnesau yng Nghymru i ennill nawdd ar gyfer gweithgareddau celfyddydol yng Nghymru.

Bydd Masnach Cymru Rhyngwladol yn parhau i ddarparu cymorth ar gyfer y diwydiannau creadigol. Yn ddiweddar mae Masnach Cymru Rhyngwladol wedi:

- darparu cefnogaeth ar gyfer 9 cwmni o Gymru i fynychu arddangosfa'r cyfryngau 'MILIA' yn Ffrainc fis Chwefror 2001;

- cefnogi 4 cwmni i fynychu Ffair Lyfrau Ryngwladol Frankfurt yn Hydref 2000.

Fe fyddant hefyd yn:

- cefnogi sector y diwydiannau creadigol (yn cynnwys film) ar genhadaeth i Ddulyn yn Iwerddon yn Hydref 2001, mewn cysylltiad a Sgrin.

- darparu pafiliwn i Gymru yn Ffair Rhyngwladol Frankfurt yn Hydref 2001.

**Uchelgais Genedlaethol – Dylanwad Rhyngwladol**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi rhoi'r hyder a'r cyfle i Gymru ddilyn trywydd ei uchelgais genedlaethol ei hun tra'n parchu hawliau a thraddodiadau rhannau eraill o'r DU yng nghyddestun yr Undeb Ewropeaidd ac yn ehangach.

Yr ydym wrth ein bodd bod Caerdydd wedi denu digwyddiadau o bwys megis Rownd Derfynol Cwpan yr FA. Byddwn yn parhau i gefnogi'r datblygiadau sy'n briodol ac yn addas ar gyfer prif ddinas fodern. Byddwn yn cydbwyso hyn â chefnogaeth ar gyfer gweddill Cymru. Gall y sylw a gawn yn y cyfryngau rhyngwladol pan ydym yn cynnal digwyddiadau rhyngwladol godi ymwybyddiaeth am Gymru yn gyffredinol ac annog pobl i ddod yma ac i deithio'n eang o fewn y wlad.

- Yr ydym wedi sefydlu Is-bwyllgor Cabinet i hyrwyddo rôl Cymru yn y byd.

- Mae Bwrdd Croeso Cymru yn cynnal cronfa ddata gynhwysfawr o ddigwyddiadau, gwyliau a llety yng Nghymru. Gyda chefnogaeth y Cynulliad Cenedlaethol bydd y Bwrdd yn creu System Reoli Cyrchfannau ar y we. Bydd hyn yn galluogi ymwelwyr â Chymru i archebu pecyn gwyliau cyfan, gan gynnwys llety a thocynnau ar gyfer digwyddiadau.

- Bydd yr Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol yn cyhoeddi dogfen ymgynghori gyhoeddus cyn bo hir a fydd yn gofyn am sylwadau ar yr holl ystod o opsiynau ar gyfer

arddangos eu gwaith celf, gan gynnwys y posibilrwydd o sefydlu Oriel Genedlaethol yng Nghymru.

- Mae Cyngor y Celfyddydau ac Awdurdod Datblygu Cymru yn cydweithio gyda Bwrdd Croeso Cymru i lunio strategaeth grefftau i Gymru, fydd yn cydnabod y potensial sydd gan y sector hwnnw i gyfrannu at dwf diwylliannol ac economaidd.

- Yr ydym yn argyhoeddedig o bwysigrwydd sector theatr bywiog ac mae'n holl bwysig ei annog a'i ddatblygu ar bob lefel.

- Bydd Cyngor y Celfyddydau yn llunio strategaeth ddrama newydd, gyda'r nod o gryfhau gweithgareddau ar lawr gwlad ym myd y theatr tra'n datblygu safle'r cwmnïau proffesiynol ar yr un pryd.

- Bydd Cyngor y Celfyddydau yn datblygu strategaeth wedi'i chydlynu i annog dawns yng Nghymru, a fydd yn cynnwys canllawiau ar wella hyfforddiant ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn.

- Bydd Cyngor y Celfyddydau yn adolygu ei bolisi tuag at ariannu gwyliau, trwy gydlynu â Bwrdd Croeso Cymru a CLlLC.

- Mae gwaith eisoes ar y gweill ar lunio cystadleuaeth newydd ar gyfer Cymru – 'Artist Rhyngwladol y Ffurf Ddynol'. Mae'r BBC, Dinas a Sir Caerdydd a Bwrdd Croeso Cymru wedi addo cyllid er mwyn ariannu'r datblygiad, gwaith cynllunio busnes a gwaith i baratoi ar gyfer y gystadleuaeth gyntaf.

- 'Ryn ni wedi gofyn i Gyngor y Celfyddydau ddatblygu cynigion yn eu Cynllun Corfforaethol i gryfhau Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.

- Byddwn yn gweithio â''n partneriaid yn Celfyddydau Rhyngwladol Cymru er mwyn manteisio ar y cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer defnyddio gweithgareddau diwylliannol i godi proffil Cymru dramor.

- Mae gan Dalaith Chubut ym Mhatagonia, yr Ariannin dreftadaeth Gymreig unigryw (gwladychwyd y dalaith gan ymfudwyr o Gymru). Yr ydym yn noddi project 3-blynedd i gefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymreig yno. Mae cyfleoedd cyffrous ar gael bob blwyddyn i athrawon o Gymru weithio yn Chubut.

- Mae Ysgol Gymraeg Llundain yn cynnig addysg cyfrwng-Cymraeg i blant o oed cynradd, yng nghanol prif ddinas Lloegr. Mae'r Weinyddiaeth yn cefnogi'r ysgol drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

- Ysgrifennydd Gwladol Cymru sy'n bennaf gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â pholisïau ieithoedd lleiafrifol ar lefel Ewropeaidd. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ymweld â Brwsel yn rheolaidd i drafod y mater hwn a materion eraill. Mae Swyddfa'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadw Gweinyddiaeth y Cynulliad mewn cysylltiad clòs â datblygiadau.

- Byddwn yn sicrhau y bydd y gwaith o ailstrwythuro Cyngor y Celfyddydau yn chwarae rhan allweddol yn y broses o symbylu gweithgareddau diwylliannol o fewn y gymuned, a dod â gweinyddiaeth y celfyddydau yn agosach at y bobl.

- Hoffem weld Opera Cenedlaethol Cymru yn cryfhau ei safle fel cwmni ag iddo enw da yn rhyngwladol.

- Yr ydym wedi darparu arian ychwanegol i'r Llyfrgell Genedlaethol ar gyfer Canolfan Ymwelwyr newydd a modern, a fydd yn cynnwys theatr aml-gyfrwng, ystafelloedd dosbarth ar gyfer partïon ysgol, bwyty newydd a siop. Bydd mynedfa newydd yn cael ei chreu hefyd, a fydd yn cynnig mynediad addas i'r rhai sydd ag anawsterau symud sy'n defnyddio'r llyfrgell am y tro cyntaf.

- Mae'n penderfyniad i ddarparu mynediad rhad ac am ddim i'r Amgueddfeydd a'r Orielau Cenedlaethol wedi galluogi ein trysorau cenedlaethol i fod ar gael yn rhwydd i bawb, ac o ganlyniad gwelwyd y nifer uchaf erioed yn ymweld â safleoedd yr Amgueddfeydd.

- Yr ydym yn cynnig cymorth i Ddinas a Sir Caerdydd i'w galluogi i baratoi eu cais i ddod yn Brif Ddinas Diwylliant Ewrop yn 2008.

- Mae'r WDA a Sgrîn, mewn partneriaeth â'r comisiynau ffilm rhanbarthol, yn bwrw ymlaen â menter i ailstrwythuro'r gwaith o gomisiynu ffilmiau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys marchnata Cymru fel lleoliad ar gyfer ffilmio, yn ogystal â chynnig cymorth i wneuthurwyr ffilm pan maent yn gweithio yma.

- Mae'n fwriad gennym sefydlu brand Comisiwn Sgrin Cymru newydd. Bydd gan Gomisiwn Sgrin Cymru swyddfa genedlaethol wedi'i lleoli yn Sgrîn, yn cydweithio â swyddfeydd rhanbarthol.

- Mae ymdrechion ar droed i ddenu cynhadledd animeiddio o bwys, y Fforwm Cartn Ewropeaidd, i Ogledd Cymru yn 2002.

- Caiff Gwyl Ffilm Ryngwladol nesaf Cymru ei chynnal yn Nhachwedd – Rhagfyr 2001. Mae Sgrîn yn darparu grant i'r Wyl ac mae'n aelod o Fwrdd yr wyl. Mae Sgrîn hefyd yn trefnu cynhadledd Ffocws ar Ffilm, wedi'i hamseru i gyd-fynd â'r Wyl.

- Mae'r Cynulliad yn deall bod S4C yn croesawu cefnogaeth y Cynulliad tuag at ei bolisi

mewn perthynas â ffilm. Mae S4C wedi cadarnhau bod animeiddio a ffilmiau byw yn parhau yn elfen bwysig o'i strategaeth gomisiynu. Mae animeiddiad yn seiliedig ar hanesion y Mabinogi wrthi'n cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd ac mae'n fwriad y bydd hwnnw yn benllanw 20 mlynedd o fuddsoddi gan S4C mewn amrywiaeth o brojectau animeiddio. Disgwylir iddo gael ei ryddhau yn 2002. Bydd penderfyniadau ar y ffilmiau i'w comisiynu yn parhau i ddibynnu ar ansawdd y projectau a gyflwynir.

Mae Cymru ar flaen y gad yn y DU o ran y nifer sydd â setiau teledu digidol. Mae'r teledu newydd yn cynnig mwy o sianelau, ansawdd technegol gwell a gwasanaethau rhyngweithiol. Ar yr un pryd, mae'n rhaid i Gymru wynebu materion pwysig ynghylch argaeledd y mathau gwahanol o wasanaethau teledu digidol yn ein cymunedau; ac ynghylch cost a chynhwysiant cymdeithasol.

Nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol gyfrifoldeb wedi'i ddatganoli ar gyfer darlledu, ond mae'r Weinyddiaeth yn benderfynol o lefaru o blaid buddiannau Cymru yn y drafodaeth ar ddarlledu. Yr ydym eisoes wedi gwneud cyflwyniad i Lywodraeth Prydain ynghylch y sefyllfa yng Nghymru, a'r angen i asesu "tri phrawf" y llywodraeth, sef argaeledd, fforddiadwyedd a hygyrchedd yn arbennig mewn perthynas â Chymru, cyn i signalau teledu analog gael eu diffodd. Yr ydym yn awyddus i gryfhau ein perthynas â darlledwyr Cymru, ac i barhau i lefaru ar ran buddiannau gwylwyr a gwrandawyr Cymru.

**Chwaraeon**

Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth o gyfleusterau chwaraeon a hyfforddi, a chyfleoedd i bobl o bob oed fwynhau chwaraeon a hamdden, fod yn rhan bwysig o unrhyw strategaeth ddiwylliannol. Rydym yn cymeradwyo'r genhadaeth sydd gan Gyngor Chwaraeon Cymru i gynyddu cyfranogiad; codi safonau; gwella cyfleusterau; ac i ddarparu cyngor technegol ac i godi'r ddealltwriaeth gyffredinol o chwaraeon a hamdden.

Yr ydym wedi cytuno ar y prif bolisïau canlynol gyda'r Cyngor Chwaraeon:

- Sefydlu cyfleoedd i bawb gymryd rhan mewn chwaraeon o fewn y gymuned, gan ganolbwyntio'n arbennig ar blant o oedran ysgol.

- Gweithio â chlybiau er mwyn sicrhau eu bod wedi'u paratoi n ddigonol i edrych ar ôl plant a bydd yn mabwysiadu dull o weithredu a fydd yn canolbwyntio ar blant yn ei waith.

- Datblygu cyngor a chanllawiau ar amddiffyn plant ar gyfer sefydliadau a darparwyr chwaraeon.

- Parhau i gefnogi'r adnodd hanfodol o wirfoddolwyr drwy ariannu hyfforddiant a datblygu hyfforddwyr a bydd yn anelu i gynyddu nifer y gwirfoddolwyr yn sylweddol er mwyn

cefnogi rhaglenni newydd wedi'u targedu at blant o oedran ysgol.

- Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn cefnogi'r Ffederasiwn o Gymdeithasau Chwaraeon ar gyfer yr Anabl yn ei waith, gan ganolbwyntio ar ragoriaeth. Bydd y Cyngor hefyd yn adolygu'r gwaith o gydlynu darpariaeth chwaraeon i bobl ag anableddau yn lleol ac yn ariannu, trwy SPORTLOT, swyddogion datblygu awdurdodau lleol gan ganolbwyntio ar ddatblygu clybiau ar gyfer yr anabl sy'n canolbwyntio'n benodol ar chwaraeon.

- Mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu a luniwyd er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng cyfranogiad bechgyn a merched.

Yr ydym yn croesawu datblygiad pwll nofio cenedlaethol newydd yn Abertawe, a'r penderfyniad mewn egwyddor i adeiladu felodrom yng Nghasnewydd. Bydd y datblygiadau hyn yn goron ar yr ystod o gyfleusterau cenedlaethol a fydd ar gael yng Nghymru ar gyfer hyfforddi a chystadlu, ac yn cyfrannu at ddatblygiad rhagoriaeth ar draws yr ystod eang o chwaraeon.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cydweithio'n agos gyda sefydliadau eraill i ddatblygu'r polisi chwaraeon a ffyrdd iach o fyw. Yr ydym yn awyddus i gynnal arfer da, ond hefyd i archwilio syniadau newydd. Dyna pam y bu inni sefydlu dau weithgor yn ddiweddar i ystyried a'n cynghori ar ein polisïau yn y maes hwn.

- Mae'r Gweithgor ar Addysg Gorfforol mewn Ysgolion, wedi adrodd i'r Gweinidog Addysg, a gofynnwyd iddo:

- Adnabod y materion allweddol sy'n effeithio ar addysg gorfforol a chwaraeon ysgol ac argymell dulliau o wella'r ddarpariaeth ar gyfer holl bobl ifanc Cymru;

- Cytuno a hyrwyddo gweledigaeth gyffredin ar gyfer datblygu addysg gorfforol a chwaraeon ysgol yn y dyfodol;

- Adnabod a hyrwyddo arferion da mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgol;

- Adolygu natur ac effeithiolrwydd mentrau cyfredol sydd wedi'u hanelu at wella ansawdd addysg gorfforol a chwaraeon ysgol.

Ymhlith yr argymhellion sydd i'w rhoi ar waith yn 2001-02 fydd penodi Cydlynydd Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol Cenedlaethol a fydd yn gyfrifol am ddatblygu a goruchwylio'r broses o roi argymhellion yr Adroddiad ar waith, gyda chefnogaeth Grp Llywio; bydd hyn yn cynnwys datblygu rhaglenni ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus mewn Addysg Gorfforol ar gyfer bob athro a sefydlu Canolfannau Datblygu Cwricwlwm peilot er mwyn adnabod, cryfhau a datblygu ymhellach yr arferion da presennol mewn Addysg Gorfforol a chwaraeon

ysgol. Mae'r Cynulliad hefyd yn bwriadu cyhoeddi canllawiau fframwaith i bob ysgol yn ddiweddarach yn y flwyddyn ar godi safonau Addysg Gorfforol a chwaraeon ysgol a fydd yn cynnwys enghreifftiau o arferion da, gan dynnu ar dystiolaeth arolygu gan Estyn ac AALl ac achosion achos.

- Mae gan y Gweithgor ar Iechyd a Ffyrdd Iach o Fyw, a fydd yn adrodd i'r Gweinidog Diwylliant, y cylch gorchwyl canlynol:

Dwyn yr asiantaethau allweddol yng Nghymru ynghyd er mwyn canolbwyntio ar gamau ataliol a:

- Sefydlu swyddogaethau, cyfrifoldebau a chynlluniau cyfredol;
- Sefydlu amcanion strategol cyfredol;
- Paratoi Gweledigaeth gytûn ar gyfer dyfodol iechyd y Genedl a gwasanaethau iechyd;
- Paratoi cynllun strategol cyfun gyda chysylltiadau clir i raglenni asiantaethau unigol a diddymu dyblygu swyddogaethau;
- Cytuno ar gyfres o gynlluniau gweithredu sydd wedi'u hasio'n a'u cydlynu'n glir a fydd yn cynorthwyo i godi safonau iechyd yng Nghymru yn agosach at gyfartaledd Ewrop;
- Nodi unrhyw oblygiadau eang i'r gyllideb;
- Cytuno ar set o fesurau i fesur canlyniadau ac allbwn er mwyn monitro'r cynnydd.

Yr ydym wedi cytuno gyda'r Gronfa Cyfleoedd Newydd y bydd eu rownd nesaf o fentrau yn mynd ati i fuddsoddi'n helaeth er mwyn annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. O ganlyniad:

- Bydd y Gronfa yn darparu dros £48 miliwn ar gyfer cyfleusterau chwaraeon yn ysgolion Cymru. Bydd yr arian hwn yn cefnogi'r gwaith o adnewyddu adeiladau presennol, ac adeiladu cyfleusterau chwaraeon dan do ac awyr agored newydd at ddefnydd ysgolion a chymunedau; darparu refeniw cychwynnol ac adeiladu neu ailddodrefnu cyfleusterau antur awyr agored ar gyfer pobl ifanc.
- Bydd y Gronfa yn neilltuo £3.3 miliwn i alluogi pobl ifanc Cymru i gymryd rhan mewn rhaglenni antur a gweithgareddau heriol eraill. Amcan y cymorth ariannol hwn yw gwella hunan hyder pobl ifanc a chynyddu'r nifer sy'n mynd ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu swydd â hyfforddiant.

**ADNODDAU**

Mae’r Llywodraeth Bartneriaeth a ffurfiwyd fis Hydref 2000 wedi dangos ei ymrwymiad i’r celfyddydau drwy ddarparu cymorth ariannol ychwanegol o 2001-02 ymlaen ar gyfer diwylliant, chwaraeon a’r Gymraeg.

Bydd angen trafod lefel yr ariannu ar gyfer blynyddoedd i ddod mewn sawl cylch cynllunio’r gyllideb. Y Cynlluniau Corfforaethol a gyflwynir gan yr CCNCau diwylliannol fis Mehefin bob blwyddyn fydd y sail ar gyfer trafodaethau o’r fath.

Byddwn yn disgwyl i CCNCau sy’n gwneud cais am adnoddau ychwanegol i ddangos gyntaf oll eu bod yn defnyddio’r adnoddau presennol sydd ganddynt yn effeithiol ac yn angenrheidiol; dangos bod eu polisïau yn cefnogi gwerthoedd, blaenoriaethau ac amcanion y Cynulliad Cenedlaethol ac y bydd unrhyw arian ychwanegol, os caiff ei ddarparu, yn cefnogi gweithgareddau ychwanegol buddiol ar gost sy’n rhoi gwerth am arian.

Dengys y tabl canlynol linellau’r gyllideb ar gyfer y prif sefydliadau sy’n cael eu hariannu oddi mewn i’r portffolio diwylliant.

| **CCNC** | **Darpariaeth £m** | **Darpariaeth Gwaelodolin £m** | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2000-01** | **2001-02** | **2002-03** | **2003-04** |
| CCC | 15.458 | 16.571 | 17.771 | 19.771 |
| CChC | 7.017 | 7.661 | 7.761 | 7.861 |
| LlGC | 6.953 | 7.204 | 7.404 | 7.604 |
| OACC | 14.509 | 15.434 | 17.234 | 17.634 |
| BIG | 6.330 | 6.976 | 7.136 | 7.306 |
| CLlC | .564 | .625 | .645 | .665 |
| CLlGGC | .030 | .030 | .030 | .030 |
| CMC | 3.000 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CAC | .522 | .6212 | .647 | .972 |

Yn ogystal, mae Cymru wedi elwa o rantiau’r loteri fu’n werth £500 miliwn ers i’r Loteri ei sefydlu, ar gyfer mwy na 5,500 o brosiectau.

Cefnogwyd ystod o brosiectau – o rai cyfalaf cenedlaethol mawr gwerth miliynau i rai bach o fewn y gymuned yn werth ychydig gannoedd o bunnau. Mae’r Loteri wedi cefnogu prosiectau ym meysydd chwaraeon, y celfyddydau, yr amgylchedd, iechyd, addysg a llawer eraill.

Yn gynyddol, mae’r cyrff sy’n dosbarthu grantiau loteri yn unioni eu blaenoriaethau fel eu bod yn agosach at amcanion y Cynulliad Cenedlaethol.

**RHOI AR WAITH**

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a’r Gymraeg fydd yn bennaf gyfrifol am roi’r polisïau a amlinellwyd yn y ddogfen hon ar waith.

Yr CCNCau sy’n gyfrifol am faterion gweithredol beunyddiol mewn perthynas â diwylliant, chwaraeon, a’r Gymraeg fydd yn cyflwyno llawer o’r polisïau.

Bydd gan gyrff eraill hefyd rôl bwysig, a gynrychiolir ar Cymru’n Creu, megis Bwrdd Croeso Cymru, Sgrîn a’r darlledwyr.

Dim ond os bydd pob un o’r cyrff hynny all gyfrannu at eu llwyddiant yn cydweithio mewn partneriaeth, yn mynd ati’n benderfynol i fodloni eu rhwymedigaethau eu hunain, ac yn cefnogi ymdrechion eu gilydd y bydd modd gwireddu llwyr botensial y polisïau hyn.

14 Mehefin 2001